**PANEL PENODIADAU ARBENNIG**
**(PENNAETH GWELLA YSGOLION)**

Cofnodion cyfarfod o'r Panel Penodiadau Arbennig, a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor, Neuadd y Sir, Rhuthun ddydd Iau Ionawr 24, 2008 am 9.00 a.m.

**PRESENNOL**

Cynghorwyr J A Smith (Cadeirydd), J Chamberlain-Jones, S Frobisher, H H Evans, M M Jones a'r Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Corfforaethol: Adnoddau/Dirprwy Brif Weithredwr.

**HEFYD YN BRESENNOL**

M Mehmet (Cyfarwyddwr Corfforaethol Dros Dro: Dysgu Gydol Oes), David Edwards (Cadeirydd Ffederasiwn Prifathrawon Sir Ddinbych), Swyddog Personél (Linda M Jones) a Chlerc y Sir ynghyd ag L Judd (Gatenby Sanderson).

**YMDDIHEURIADAU**

Dim.

**691 MATERION BRYS**

Dim

**692 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar Ionawr 23 2008.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo cofnodion y Panel Penodiadau Arbennig a gynhaliwyd ar Ionawr 23 2008 yn gofnod cywir ac fe'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.*

**GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

***PENDERFYNWYD*** *yn unol ag Adran Section 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraffau 12 a 13 Rhan 4 Atodlen12A Deddf Llywodraeth Leol 1972, yn cael ei datgelu.*

**693 PENODIAD PENNAETH GWELLA YSGOLION**

Fe ystyriodd y Panel restr o gwestiynau ychwanegol oedd i'w gofyn i'r ymgeisydd a pha aelod fyddai'n gofyn pa gwestiwn.

Yna fe aeth y Panel ymlaen i gyfweld yr ymgeisydd oedd wedi ei ddewis gan y Panel yn dilyn cwblhau'r Ganolfan Asesu.

Cafwyd cyflwyniad gan yr ymgeisydd ar bwnc a roddwyd iddo cyn y cyfarfod. Hefyd gofynnwyd cwestiynau i'r ymgeisydd gan aelodau'r Panel.

O ystyried rhinweddau'r ymgeisydd

***PENDERFYNWYD*** *yn unfrydol i gynnig swydd Pennaeth Gwella Ysgolion i Gareth Wyn Jones.*

Dychwelodd yr ymgeisydd i'r ystafell a derbyniodd y cynnig am y swydd, yn amodol ar y gwiriadau cyn-gyflogi arferol.

Daeth y cyfarfod i ben am 11 a.m.

********